Cryfhau partneriaeth gymdeithasol

Strengthening social partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fforwm Manwerthu - Astudiaeth Achos Partneriaeth Gymdeithasol

Gweledigaeth a rennir ar gyfer sector manwerthu Cymru

**Y sector manwerthu yw cyflogwr mwyaf Cymru yn y sector preifat, sy'n cyflogi mwy na 114,000 o weithwyr. Mae'n hynod bwysig i'n heconomi, i'n cymunedau ac i'n lles fel gwlad.**

Fodd bynnag, mae'r sector yn wynebu ystod o heriau sylweddol, gan gynnwys cyfnod o newid i rôl canol trefi; effaith technolegau newydd; newidiadau i batrymau ac ymddygiadau cwsmeriaid; a materion yn ymwneud â recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo'r sector yn addasu i effaith barhaus ymadawiad y DU â'r UE ar gadwyni cyflenwi, yn gweithio yn unol â'r agenda newid hinsawdd, ac yn delio ag ôl-effeithiau'r pandemig Covid ac ergydion yr argyfwng costau byw a chwyddiant.

Er gwaethaf y materion anodd a heriol hyn, mae cyfleoedd sylweddol hefyd. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru'n mabwysiadu dull partneriaeth gymdeithasol, gan weithio gydag undebau llafur a chynrychiolwyr busnes drwy'r **Fforwm Manwerthu**. Diben y Fforwm yw cydweithio i lywio gweledigaeth gyffredin ar gyfer sector manwerthu llwyddiannus, cynaliadwy a gwydn sy'n cynnig gwaith teg a diogel sy'n rhoi boddhad.

Mae'r Fforwm wedi cyfarfod yn rheolaidd ers iddo gael ei sefydlu ac mae wedi gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i greu **Datganiad Sefyllfa** ym mis Mawrth 2022, a chyhoeddi **Gweledigaeth Strategol a Rennir** ym mis Mehefin 2022. Mae'r Fforwm nawr yn gweithio ar Gynllun Cyflenwi, a fydd yn amlinellu camau penodol i helpu i wireddu'r weledigaeth.

Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol drwy'r Fforwm wedi helpu i feithrin cysylltiadau ac wedi gwella cyd-ddealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol pob aelod o'r Fforwm. Yn ei dro, mae hyn yn helpu i lywio datblygiad polisi perthnasol ar draws Llywodraeth Cymru.



OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG46600,
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg